## Diweddariad Data Cymru – PCYC Hydref 2020

### Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru: offeryn we newydd

Rydym wedi cael ein comisiynu gan y Bartneriaeth i ddatblygu offeryn we newydd a fydd yn cymryd lle ei Phorth Ymfudo Cymru presennol . Bydd yr offeryn newydd gwell yn cyfuno cynnwys ac adnoddau gwefan bresennol y Bartneriaeth â'r data a ddelir o fewn y Porth Ymfudo.

Gyda mewnbwn oddi wrth ddefnyddwyr data ymfudo, rydym yn datblygu'r offeryn newydd i fod yn haws ei ddefnyddio, i gadw data mwy perthnasol a chyfredol ac i gynnwys cyfleuster gwell i ledaenu data.

Byddem yn croesawu mewnbwn gan gydweithwyr Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ynghylch y math o ddata yr hoffech chi ei weld ar gael yn yr offeryn newydd hwn. Os hoffech chi gyfrannu at ddatblygiad yr offeryn, cysylltwch â Tom Brame.

### Staff ystadegol newydd yn Data Cymru

Rydym wedi sôn o'r blaen am ein bwriad i gynyddu ein capasiti ystadegol, a hynny i ehangu'r gwaith ystadegol rydym yn ei wneud ac i gynyddu lefel y gefnogaeth sydd ar gael i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol.

Yn dilyn ymarfer recriwtio, mae'n bleser gennym adrodd bod Hayley Randall wedi ymuno â ni'n ddiweddar i lenwi ein rôl Uwch Ystadegydd.

Mae'n bleser gennym hefyd groesawu Jonathan Owens, sydd wedi ei benodi i rôl Ystadegydd.

### Deall effaith economaidd COVID-19 yng Nghymru

Yn dilyn cyhoeddiad ein dangosfwrdd ar farwolaethau a'r pandemig, rydym wedi creu dangosfwrdd i gynorthwyo deall effaith economaidd y pandemig hefyd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am fesuriadau'r DU (fel GDP, chwyddiant, benthyca a dyled) a mesuriadau lleol (fel ystadegau ffwrlo, data am swyddi gwag, a chyfrifiad o hawlwyr). Bydd y dangosfwrdd yn cael ei gyhoeddi'n fuan iawn.

Os oes gennych unrhyw feddyliau neu syniadau neu os hoffech gael sgwrs am y dangosfwrdd, cysylltwch â Daniel Cummings neu Sam Sullivan.

## Porth data agored

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi bod yn datblygu ein porth data agored cenedlaethol - adnodd cynhwysfawr am ddata agored y sector cyhoeddus yng Nghymru. Y nod yw i'r porth fod yn llwyfan y gall cyrff sector cyhoeddus gyhoeddi eu data agored arno. Yn ogystal, bydd yn dod â data agored ynghyd sy'n cael ei gyhoeddi'n barod mewn mannau eraill.

Dros yr wythnosau nesaf gobeithiwn weithio gyda nifer o awdurdodau i beilota'r offeryn, cyn ei fireinio a threfnu ei fod ar gael i bawb yn yr hydref hwyr.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Daniel Cummings.

## Adnoddau gwe newydd yn Data Cymru

Yn ddiweddar cyhoeddom ni dair tudalen we newydd sy'n rhoi ffocws ar ddata agored, ymchwil gymdeithasol a gwyddor data. Nod y tudalennau gwe hyn yw eich cyflwyno i'r pwnc, esbonio ein gweledigaeth ar gyfer gweithredu ledled sector cyhoeddus Cymru, a phennu beth rydym ni'n bwriadu ei wneud i helpu i wireddu'r weledigaeth. Cynhwyswn rai adnoddau defnyddiol hefyd ar gyfer darllen pellach, fel dolenni â blogiau perthnasol, astudiaethau achos, ac arweiniadau defnyddwyr ochr yn ochr â gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y dyfodol ac unrhyw newyddion eraill a allai fod o ddiddordeb.

Cymerwch gip arnynt a rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at ein rhestr o adnoddau defnyddiol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Suzanne Draper.

## Dyfodol Amcanestyniadau Gofal Cymdeithasol Cymru

Trwy gydol 2020, rydym wedi bod yn gweithio i wella gwefan amcanestyniad anghenion gofal cymdeithasol Daffodil. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, grŵp cyfeirio o ddefnyddwyr y wefan bresennol ac Usk Scientific Services i greu dehongliad modern o'r system.

Arweiniodd hyn at ailwampio'n llwyr, gan gynnwys:

- set wedi'i diweddaru o ddangosyddion ar sail methodoleg gwbl newydd;
- rhyngwyneb newydd â defnyddwyr gydag opsiynau ychwanegol o ran delweddu a hidlo data;
- ôl-weithrediadau mwy dibynadwy ac ystwyth i leihau'r ymdrech mae ei hangen i ychwanegu neu addasu dangosyddion neu fethodoleg Daffodil; ac
- integreiddio i mewn i Borth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru.

Y bwriad yw lansio fersiwn gyntaf yr offeryn erbyn diwedd mis Hydref. Byddwn yn parhau i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod yr amcanestyniadau a'r offeryn yn aros yn gyfredol ac yn addas at eu diben.
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rob Pascoe.